

TUDALEN 4

Cofnodion cyfarfod o Gyngor y Ddinas a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **6 Mehefin 2022** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL: - Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts, (Cadeirydd), y Dirprwy Faer, Cynghorydd Elin Walker Jones, Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Chris Johnson, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref Dros Dro), Gwynfor Owen (Cyfieithydd), John Chamberlain (Cludwr y Byrllysg).

13/22 YMDDIHEURIADAU

Dim

14/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

15/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

16/22 COFNODION

i) Cyfarfod y Cyngor – 7 Mawrth 2022

Cymeradwywyd fel cofnod cywir.

ii) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 11 Ebrill 2022

Cymeradwywyd fel cofnod cywir.

iii) Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid – 25 Ebrill 2022

Cymeradwywyd fel cofnod cywir.

17/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU, STAFFIO A CHYLLID

Gan na fu cyfarfod o'r pwyllgor hwn ers y Cyfarfod Blynyddol, ni chyflwynwyd adroddiad i'w gymeradwyo.

18/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR ASED AU, ADNODDAU A PHROSIECTAU

Gan na fu cyfarfod o'r pwyllgor hwn ers y Cyfarfod Blynyddol, ni chyflwynwyd adroddiad i'w gymeradwyo.

19/22 DERBYN ADRODDIAD GAN GLERC Y DREF DROS DRO

Adroddodd Clerc y Dref Dros Dro fod pymtheg allan o ugain sedd wag y Cyngor wedi cael eu llenwi yn yr etholiad diwethaf, a bod hysbysiadau wedi'u cyhoeddi i lenwi'r seddi gwag eraill. Cynhaliwyd sesiwn gynefino gyda'r Cynghorwyr newydd, a chafwyd adborth cadarnhaol i hon.

Ers y cyfarfod diwethaf, dathlwyd pen-blwydd y Pier yn 126 oed, ynghyd ag ennill gwobr Pier y Flwyddyn, a bu hwn yn ddiwrnod llwyddiannus a phoblogaidd iawn. Cynhaliwyd digwyddiadau llai yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc i ddathlu'r Jiwbilî Platinwm. Dywedwyd

TUDALEN 5

wrth y Cyngor fod yr hen offer chwarae wedi'i dynnu o faes parcio'r Pier erbyn hyn a bod pensaer tirlunio wedi cael ei gomisiynu.

Gwnaed cynnydd ar amryw o gynlluniau a fyddai o fudd i'r Ddinas yn y pen draw yn cynnwys; trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd am Gais newydd Trawsnewid Trefi, cyfarfodydd ynghylch y Cynllun Arwyddion, cyfarfod â Chynghorwyr ward i drafod y Stryd Fawr a thrafodaeth am weithredu'r rhaglen Tref Ddigidol.

Gofynnwyd i'r Clerc a allai anfon y Canllawiau Grantiau a'r Telerau ac Amodau newydd i'r Cynghorwyr a dywedodd y byddai'n gwneud hyn trannoeth.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad Clerc y Dref.

20/22 CYMERADWYO STRWYTHUR PWYLLGORAU'R CYNGOR

Gan fod strwythur pwyllgor presennol y Cyngor wedi bod yn ei le ers deuddeg mis, yn ôl y cynllun, gwnaed adolygiad i ganfod ei effeithiolrwydd. Er bod y nod o rannu gweithgareddau wedi cael ei groesawu, y brif anfantais oedd bod rhai Cynghorwyr yn teimlo'u bod yn cael eu heithrio o rai penderfyniadau. Cynigiwyd diwygio'r system bresennol fel bod hawl gan bob Cynghorydd i eistedd ar y ddau bwyllgor ac y byddai'r Pwyllgorau'n cyfarfod bob yn ail fis. Byddai'r ddau bwyllgor yn cadw eu statws gweithredol gyda'r pwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau ac awdurdodi gwariant, o fewn y cyllidebau a gymeradwywyd. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

PENDERFYNWYD derbyn y cynnig cyffredinol, yn amodol ar gytuno ar ragor o fanylion, yn cynnwys penodi Cadeiryddion a'r systemau adrodd yn ôl.

21/22 PENODI IS-BWYLLGOR I'R CYNGOR

I. Is-bwyllgor Nantporth.

Gan y bydd yn debyg y bydd cryn dipyn o weithgaredd yn gysylltiedig â'r ased Cyngor hwn, teimlid y dylai'r Cyngor ffurfio is-bwyllgor Nantporth. Yn y lle cyntaf, bydd y pwyllgor hwn yn adrodd i'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau.

PENDERFYNWYD penodi'r cynghorwyr canlynol i'r pwyllgor: Cyng G. Roberts, Cyng H. Jones, Cyng M. Hughes a Cyng J. W. Williams. Cadwyd un lle gwag er mwyn rhoi cyfle i gynghorydd newydd ymuno â'r pwyllgor hwn.

Is-bwyllgor Penodiadau.

O ystyried y newidiadau diweddar mewn cynghorwyr yn dilyn etholiad mis Mai, gofynnwyd am gynghorwyr ychwanegol i ymuno â'r is-bwyllgor penodiadau. Prif swyddogaeth y pwyllgor hwn yw llenwi'r swydd Clerc y Dref/Cyfarwyddwr Dinesig ac yn y lle cyntaf, bydd y pwyllgor yn adrodd i'r pwyllgor Llywodraethu, Staffio a Chyllid.

PENDERFYNWYD penodi'r cynghorwyr canlynol i'r pwyllgor: y Maer, Cyng Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer, Cyng Elin Walker Jones, cyn Gadeiryddion ac is gadeiryddion pwyllgorau, Cyng Gareth Roberts a Cyng Medwyn Hughes a dau gyn Faer, Cyng John Wyn Jones a Cyng John Wyn Williams.

22/22 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

PENDERFYNODD y Cyngor benodi Cynghorwyr i gyrff allanol fel a ganlyn, a sefydlu trefn lle mae gweithgareddau'r gyrff yn cael eu hadrodd arnynt i'r Cyngor.

TUDALEN 6

Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru Partneriaeth Strategol Bangor	Gohiriwyd Cyng. J. W. Jones Cyng. M Pattison Cyng. S. Bell Cyng. J. Jones Cyng. G. Parry Cyng. E. Walker-Jones Cyng. G. Roberts Cyng. H. W. Jones Cyng. M. Hughes Gohiriwyd
Coleg Menai Cyngor ar Bopeth Canolfan Gymunedol y Garth	Cyng. H. W. Jones Cyng. G. Roberts Cyng. H. W. Jones Gohiriwyd
Canolfan Gymunedol Coed Mawr Grŵp Cyswllt Cymunedol Prifysgol Bangor Nantporth CIC Partneriaeth Maesgeirchen Bwrdd Llywodraethu Ysgolion	Cyng. H. W. Jones Cyng. G. Roberts Cyng. D. Fernley Gohiriwyd

23/22 YSTYRIED CYMORTH ARIANNOL I BALCHDER BANGOR PRIDE

Dywedwyd wrth y Cyngor fod cais am gymorth ariannol wedi'i dderbyn oddi wrth Bangor Pride. Byddai'r cais am £1,100 yn cael ei ddefnyddi'n bennaf ar gyfer cael band i arwain yr orymdaith. Adroddodd y Clerc fod cyllid ar gael pe bai'r Cyngor yn dymuno cefnogi'r digwyddiad a bod cyfansoddiad a hylifedd y mudiad wedi cael eu cadarnhau.

PENDERFYNWYD cefnogi'r digwyddiad a chymeradwyo grant o £1,100.

Gweithredu: y Clerc i drefnu'r taliad

24/22 TRAFOD SEFYDLU PWYLLGOR MENTER GYMDEITHASOL I FANGOR.

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried sefydlu Pwyllgor Menter Gymdeithasol i Fangor gyda golwg ar sefydlu cynlluniau masnachol lleol er budd y Ddinas. Roedd cynllun tebyg sy'n weithredol yn ardal Bethesda wedi gweld cryn lwyddiant.

Penderfynwyd y byddai'r Cyng Meic Pattison yn ymchwilio ymhellach i'r cynnig hwn ac mewn cydweithrediad â'r Clerc, yn cynnwys yr eitem hon yn un o gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Asedau.

25/22 SEFYDLU RHAGLEN YMGYSYLLTU AG IEUENCTID

Cynigiwyd fod y Cyngor yn sefydlu Rhaglen Ymgysylltu ag Ieuentid mewn cydweithrediad â'r ysgolion lleol. Byddai rhaglen o'r fath yn annog cyfranogiad gan bobl ifanc ac yn helpu'r Cyngor i ddeall anghenion y sector honno o gymdeithas. Eglurwyd fod rhaglen fel hon yn cydfynd ag amcan Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Llysgenhadon Ieuentid.

Yn ystod y cynnig, cafwyd problemau technegol a phenderfynwyd gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf, pryd y gellir rhoi cyflwyniad llawn.

26/22 ARWYDDO DOGFENNAU

PENDERFYNWYD awdurdodi arwyddo dogfennau ar ran Cyngor y Ddinas sy'n berthnasol i benderfyniadau agored y Cyngor a wnaed yn y cyfarfod hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 pm

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO